**Dyddiad cyhoeddi:** 06 Chwefror 2019

# Systemau meddalwedd

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth ar systemau meddalwedd.

Fe wnaethoch chi ofyn:

**Pa systemau meddalwedd a ddefnyddir gan y Cyngor ar hyn o bryd (Nodwch bob system os defnyddir mwy nag un) ar gyfer:**

- **Rheoli rhaglenni a/neu brosiectau?**
- **Cofnodi ac adrodd ar Reoli Risg**
- **Adrodd ar Reoli Perfformiad**
- **Cofnodi ac olrhain Rhyddid Gwybodaeth**

**2. Pryd fydd y contractau'n dod i ben ar gyfer pob system feddalwedd a ddefnyddir?**

**3. A oes gennych unrhyw gynlluniau arfaethedig i newid neu uwchraddio'r feddalwedd a ddefnyddir ar hyn o bryd? Os felly, pryd?**

**4. Faint mae pob system yn ei gostio gan gynnwys ffi gychwynnol y drwydded a'r tâl blynyddol?**

**5. Os nad oes gennych system, sut y caiff rhaglenni a phrosiectau eu rheoli ar hyn o bryd?**

**6. Sut (pa lwybr neu fframwaith caffael) y cafodd y contract ei dendro yn y lle cyntaf a phryd y dyfarnwyd y tendr hwn?**

**7. Os nad oes meddalwedd neu gontract wedi'i dendro ar waith ar hyn o bryd, ydych chi'n ystyried tendro neu brynu rhagor o feddalwedd o fewn y 12 mis nesaf? Os felly, pa lwybr neu fframwaith caffael y byddech yn ei ddefnyddio?**

**8. Faint o ddefnyddwyr/trwyddedau ar gyfer pob system rydych chi wedi'u prynu ar gyfer pob system?**

**9. Pwy yw'r sawl sy'n gyfrifol am y systemau meddalwedd a nodwyd? Rhowch enw llawn, teitl a manylion cyswllt os oes modd.**

Gan nad yw Trafnidiaeth Cymru yn gyngor, fe ofynnon ni i chi ar 9 Ionawr 2019 i egluro a oedd y cais hwn am wybodaeth wedi'i fwriadu ar gyfer Trafnidiaeth Cymru.

Gan nad ydych wedi egluro a oedd y cais hwn wedi'i fwriadu ar gyfer Trafnidiaeth Cymru, gallaf gadarnhau nad oes gennym wybodaeth gofnodedig y gofynnwyd amdani sy'n bodloni disgrifiad eich cais.

Cofion gorau